



O FATHMATEG I FAPIAU...

Plant Ysgol Pennal yn dysgu sut i droi ffigyrau "data mawr" yn fapiau.

Defnyddiwyd miliynau o ystadegau i fodelu'r posibilrwydd o well rheolaeth ar adnoddau naturiol yn ardal Pennal.

Cafodd y technegau diweddaraf hefyd eu rhannu gyda rhai o blant ysgol Pennal gan yr ymgynghorydd Angus Middleton cyn iddo gyflwyno ei ganfyddiadau i Grŵp Llywio Prosiect Pennal 2050 yn y Neuadd Bentref.

"Fe ddefnyddion ni ddata modelu soffistigedig o lawer o ffynonellau ynghyd â'n algorithmau ein hunain i fapio materion fel gwell defnydd o adnoddau dŵr i storio carbon, lleihau'r dŵr ffo i atal llifogydd ac asesu rheolaeth cynefinoedd i bryfed peillio," eglura Angus, Cyfarwyddwr Viridian Logic a gyflawnodd y gwaith. Bydd y mapiau modelu yn helpu partneriaid y prosiect – ffermwyr a sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Sir Gwynedd – i gynllunio ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol i leihau effaith cynhesu byd-eang a newid yn yr hinsawdd. Mae'r cam hwn yn rhan o'r prosiect STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg) sy'n



ceisio annog y plant i fabwysiadu'r technolegau diweddaraf a meddwl am yrfaedd yn y diwydiannau hyn yn ogystal â chaniatáu i'r penderfyniadau ar y cynllun fod yn seiliedig ar wyddoniaeth.

Grŵp Llywio Pennal 2050 yn edrych ar y mapiau modelu





MATHS TO MAPS...

Ysgol Pennal pupils learn about turning “big data” into maps.

MILLIONS of statistics were used to model the potential better management of natural resources in the Pennal area.

The state of the art techniques were also shared with some Pennal schoolchildren by environmental consultant Angus Middleton before presenting his findings to the Steering Group of the Pennal 2050 Project in the Village Hall.

“We used sophisticated modelling data from many sources along with our own algorithms to map out issues such as better use of water resources to store carbon, to reduce the water run-offs to prevent flooding and to assess habitat management for pollinator insects,” explains Angus who is a director of Viridian Logic which carried out the work. The modelling maps will help partners in the project – farmers and organisations such as Natural Resources Wales, Snowdonia National Park and



Gwynedd County Council – plan for future actions to reduce the effect of global warming and climate change. The move is part of a STEM (Science, Technology, Engineering and Math) element of the project which aims to engage the children in the latest technologies and to think about careers in these industries as well as allowing the scheme decisions to be science-based.

Pennal 2050 Steering Group see the modelling maps

pennalpartners@aol.com

